# Adroddiad Arholwyr Lefel 3

Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau
Lefel 3

Ionawr 2026

© WJEC CBAC Ltd.2026



## Cyflwyniad

Mae adroddiad yr Uwch Arholwyr yn rhoi adborth gwerthfawr ar y gyfres asesu ddiweddar. Yr Uwch Arholwyr a'r Uwch Gymedrolwyr sy'n ysgrifennu'r ddogfen hon ar ôl cwblhau'r marcio a'r cymedroli, ac mae'n cynnwys manylion ynghylch perfformiad ymgeiswyr ym mhob uned.

Mae'r adroddiad hwn yn dechrau â chrynodeb o berfformiad ymgeiswyr, gan gynnwys yr amcanion asesu/sgiliau/testunau/themâu sy'n cael eu profi, ac yn tynnu sylw at nodweddion perfformiad llwyddiannus a lle gellid gwella perfformiad. Yna mae'n edrych ar bob uned yn fanwl, gan nodi agweddau oedd yn heriol i rai ymgeiswyr ac awgrymu rhesymau posibl dros hynny.[1]

Mae'r wybodaeth sydd i'w chael yn yr adroddiad hwn yn helpu ymarferwyr i feithrin dealltwriaeth werthfawr i gefnogi eu gweithgaredd addysgu a dysgu. Byddem hefyd yn annog ymarferwyr i rannu'r ddogfen hon – yn ei chyfanrwydd neu rannau ohoni – â'u dysgwyr i'w helpu i baratoi ar gyfer yr arholiadau, i ddeall sut i osgoi diffygion annisgwyl ac i ychwanegu at eu pecyn cymorth adolygu.

### Cefnogaeth bellach

| Mapio | Disgrifiad | Cyswllt |
|---|---|---|
| Dysgu Proffesiynol / DPP | Mae CBAC yn cynnig rhaglen eang o ddigwyddiadau Dysgu Proffesiynol wyneb yn wyneb ac ar-lein. Cofrestrwch ar gyfer un o'n digwyddiadau yma i weld adborth rhyngweithiol, adolygu ymatebion enghreifftiol gan ymgeiswyr, cael syniadau ymarferol ar gyfer yr ystafell ddosbarth a gofyn cwestiynau i'n tîm ymroddedig. | https://www.cbac.co.uk/home/dysgu-proffesiynol/ |
| Cyn-bapurau | Manteisiwch ar y banc o gyn-bapurau ar gyfer y cymhwyster hwn, gan gynnwys yr asesiadau mwyaf diweddar. Noder na fydd y cyn-bapurau ar gael ar y wefan gyhoeddus hyd nes 12 mis ar ôl yr arholiad. | Porth CBAC neu ar dudalen pwnc CBAC |
| Gwybodaeth am ffiniau graddau | Ffiniau graddau yw'r nifer isaf o farciau y mae eu hangen i ennill pob gradd. Ar gyfer manylebau unedol, mynegir ffiniau graddau ar Raddfa Marciau Unffurf (GMU). Mae ffiniau graddau GMU yn aros yr un fath bob blwyddyn gan nad yw amrediad y canrannau marciau GMU a ddyrennir i radd benodol yn newid. Mae ffiniau graddau GMU yn cael eu cyhoeddi ar lefel gyffredinol y pwnc a'r uned.<br><br>Gyda manylebau llinol, dyfernir un radd am y pwnc, yn hytrach nag ar gyfer pob uned sy'n cyfrannu tuag at y radd gyffredinol. Cyhoeddir ffiniau graddau ar ddiwrnod y canlyniadau. | Ar gyfer manylebau unedol, cliciwch yma: Canlyniadau, Ffiniau Graddau a Gwasanaethau ar ôl y Canlyniadau (cbac.co.uk) |

[1] ***Noder: lle ystyriwyd bod perfformiad cyffredinol mewn cwestiwn/rhan o gwestiwn yn dda, heb unrhyw feysydd penodol i dynnu sylw atynt, nid yw'r cwestiynau hyn wedi'u cynnwys yn yr adroddiad.***

© WJEC CBAC Ltd.2026

| | | |
|---|---|---|
| Dadansoddi Canlyniadau Arholiadau | Mae CBAC yn darparu gwybodaeth i ganolfannau arholiadau ar Porth CBAC. Cyfyngir y ddarpariaeth hon i staff mewn canolfannau yn unig.  Y Swyddog Arholiadau yn y ganolfan sy'n rhoi'r caniatâd i'r staff yn y ganolfan gyrchu'r wefan hon. | Porth CBAC |
| Adnoddau Ystafell Ddosbarth | Manteisiwch ar ein hamrywiaeth eang o adnoddau ystafell ddosbarth RHAD AC AM DDIM, gan gynnwys deunyddiau dysgu cyfunol, adnoddau arweiniad i'r arholiad a threfnwyr gwybodaeth i gefnogi addysgu a dysgu. | https://adnoddau.cbac.co.uk/ |
| Banc o ddeunyddiau Dysgu Proffesiynol | Manteisiwch ar ein banc o ddeunyddiau Dysgu Proffesiynol o ddigwyddiadau blaenorol ar ein gwefan ddiogel a deunyddiau wedi'u recordio ymlaen llaw ychwanegol ar y wefan gyhoeddus. | Porth CBAC neu ar dudalen pwnc CBAC. |
| Arholi gyda CBAC. | Rydym bob amser yn chwilio am arholwyr neu gymedrolwyr newydd i'w recriwtio. Gall y cyfleoedd hyn eich helpu i feithrin dealltwriaeth werthfawr o'r broses asesu, gwella eich set sgiliau, gwella eich dealltwriaeth o'ch pwnc a llywio eich addysgu. | Arholi gyda ni \| CBAC |

© WJEC CBAC Ltd.2026

## Cynnwys

| | Tudalen |
|---|---|
| Crynodeb gweithredol | 5 |
| Uned 2 Ffactorau sy'n effeithio ar dwf a datblygiad unigolyn ar bob cam o'r rhychwant oes | 6 |
| Uned 7 Anatomeg a Ffisioleg | 16 |
| Eich cefnogi chi – manylion cyswllt a dolenni defnyddiol | 19 |

© WJEC CBAC Ltd.2026

**Crynodeb Gweithredol**

Yn y gyfres hon, cafwyd nifer isel o gofrestriadau ar gyfer Uned 1, Uned 5 a'r unedau asesiad di-arholiad. Cafodd gwaith ar gyfer yr unedau asesiad di-arholiad ei asesu gan ganolfannau a gwelwyd dealltwriaeth dda o'r tasgau. Yn Uned 1, un o'r elfen allweddol y mae canolfannau yn canolbwyntio arni yw'r ddealltwriaeth o egwyddorion gofal a'r ffordd maent yn sail i ofal sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau. Dylai ymgeiswyr gyfeirio at amrywiaeth eang o bolisïau a deddfwriaeth mewn perthynas â'r astudiaeth achos. Ar gyfer Uned 1 ac Uned 5, mae cymhwyso gwybodaeth at yr astudiaeth achos a llunio ymatebion manwl yn allweddol i gyrraedd y bandiau marciau uwch.

Roedd cynnydd sylweddol yn nifer yr ymgeiswyr a safodd arholiad Uned 2 ar-lein yn y gyfres hon. Mae hyn yn dal i fod yn opsiwn defnyddiol i'r ymgeiswyr hynny â llawysgrifen sy'n anodd ei ddarllen. Ar y cyfan, roedd perfformiad yn yr arholiad ar-lein a'r arholiad papur ychydig yn is na'r hyn a welwyd Gaeaf diwethaf. Dylai ymgeiswyr ymarfer cymhwyso gwybodaeth at astudiaethau achos er mwyn eu galluogi i lunio atebion mwy datblygedig yn yr uned hon. Mae defnyddio'r termau cywir a phenodol yn gwella perfformiad. Fel bob amser, dylai ymgeiswyr fod yn gwbl ymwybodol o'r berfau gorchmynnol a deall bod geiriau AA3 megis ‘gwerthuswch’ yn golygu bod angen ystyried nodweddion cadarnhaol a negyddol. Mae cwestiynau enghreifftiol gan ddefnyddio hen bapurau yn hanfodol i annog ymgeiswyr i ddarllen y cwestiynau'n ofalus a deall yr hyn sy'n ofynnol.

Gwelwyd cynnydd bach mewn perfformiad ar gyfer Uned 7 yn y gyfres hon, sy'n galonogol ac yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth gynyddol ymhlith ymgeiswyr. Dangosodd rhai ymgeiswyr fylchau mewn gwybodaeth a dylid canolbwyntio ar gysylltu cynnwys gwyddonol â ffactorau ffordd o fyw er mwyn i ymgeiswyr gyrraedd y bandiau marciau uchaf ar gyfer rhai cwestiynau.

© WJEC CBAC Ltd.2026

## IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL: EGWYDDORION A CHYD-DESTUNAU

## Lefel 3

## Ionawr 2026

## UNED 2 FFACTORAU SY'N EFFEITHIO AR DWF A DATBLYGIAD UNIGOLYN AR BOB CAM O'R RHYCHWANT OES

### Trosolwg o'r Uned

Mae'r uned hon yn cael ei hasesu drwy arholiad (naill ai ar sgrin neu bapur ysgrifenedig) sy'n cynnwys amrywiaeth o fathau o gwestiynau er mwyn asesu ffactorau sy'n effeithio ar dwf a datblygiad unigolion ar bob cam o'r rhychwant oes.
Argymhellir y dylid addysgu athrawiaeth damcaniaethwyr a'u cysyniadau ochr yn ochr ag agweddau gwahanol ar ddatblygiad ar bob cam o'r rhychwant oes. Dylid annog ymgeiswyr i gymharu a chyferbynnu dulliau drwy werthuso damcaniaethau'n feirniadol.
Dylid sicrhau bod ymgeiswyr yn ymwybodol o'r geiriau gorchymyn i'w helpu i ymarfer ar gyfer yr arholiad fel bod modd i ymatebion gyrraedd y bandiau marciau uwch. Gellir dod o hyd i eiriau gorchymyn ar: https://www.dysguiechydagofal.cymru/adnoddau/igcgp-geiriau-gorchymyn/

Roedd yr adran hon yn trafod amrywiaeth o destunau, gan gynnwys manteision gweithgarwch corfforol i ddatblygid yn ystod plentyndod. Roedd hefyd yn ystyried ffyrdd y gellid cefnogi plentyn 10 oed yn dilyn Profiad Niweidiol yn Ystod Plentyndod. Roedd y drafodaeth bellach yn canolbwyntio ar sut y gall newidiadau i'r strwythur teuluol effeithio ar ddatblygiad corfforol a deallusol plant, yn enwedig pan fydd teulu'n newid o fod yn deulu niwclear i deulu un rhiant. Defnyddiwyd amrywiaeth o eiriau gorchymyn i asesu Uned 2.1, o *nodwch* i *gwerthuswch*.

### Uned 2.2: Modelau sy'n Gysylltiedig â Ffactorau sy'n Effeithio ar Dwf a Datblygiad

Ymysg y modelau allweddol a aseswyd yn y gyfres hon roedd Erikson, Bandura, Bowlby, Piaget, a Gesell. Nid oedd rhai dysgwyr wedi cymhwyso cysyniadau allweddol yn effeithiol wrth ymdrin â'r pwyntiau asesu. Hefyd, roedd rhai ymgeiswyr wedi cael trafferth â'r gair gorchymyn AA3 *cyferbynnwch*, yn enwedig yn y cwestiwn a oedd yn gofyn iddynt gyferbynnu damcaniaethau datblygiad Piaget a Gesell yn ystod babanod a phlentyndod. Nid oedd yr ymgeiswyr hyn wedi llwyddo i nodi gwahaniaethau clir rhwng y modelau nac wedi defnyddio cysyniadau damcaniaethol i gefnogi eu hymatebion.

### Uned 2.3: Dulliau o Hybu ac Amddiffyn Gwydnwch

Roedd y prif gwestiwn yn yr adran hon yn gofyn i ymgeiswyr archwilio cryfderau a gwendidau dulliau y gellid eu defnyddio i hybu ac amddiffyn gwydnwch Zinnia ar ôl ei strôc. Er bod llawer o'r ymgeiswyr wedi nodi dulliau priodol, nid oeddent yn aml wedi esbonio'n ddigon manwl sut y byddai'r dulliau hyn yn cefnogi sefyllfa bresennol Zinnia neu pam y gallent fod yn llai effeithiol o ystyried ei hamgylchiadau.

Roedd yr adran hon yn cynnwys cwestiynau byrrach hefyd, megis sut y gallai gweithwyr iechyd proffesiynol gefnogi Melanie i feithrin safbwynt optimistaidd i hyrwyddo ei gwydnwch. Roedd Melanie wedi ysgaru ac roedd ei strwythur teuluol wedi newid. Unwaith eto, nid oedd rhai ymgeiswyr wedi canolbwyntio'n llawn ar yr astudiaeth achos yn eu hymatebion.

© WJEC CBAC Ltd.2026

**Sylwadau ar gwestiynau/adrannau unigol**

**Cw.1 (a)** Ni chafodd y cwestiwn hwn ei ateb yn effeithiol iawn, ac yn lle canolbwyntio ar y cwestiwn penodol, roedd llawer o'r ymgeiswyr wedi rhoi enw'r cam bywyd yn hytrach nag ystod oedran yr unigolion y byddai Susan yn eu cefnogi.

**(b)** Ni chafodd ymgeiswyr sgoriau uchel ar gyfer y cwestiwn hwn gan nad oedd llawer ohonynt yn ymwybodol o gam presennol Louie yn ôl damcaniaeth Erikson, sef *diwydrwydd yn erbyn israddoldeb.* Roedd rhai dysgwyr wedi dangos dealltwriaeth o'r cam diwydrwydd, megis adnabod bod Louie yn dysgu sgiliau newydd a bod canmoliaeth ac anogaeth yn bwysig i'w ddatblygiad yn y dyfodol; rhoddwyd marciau am hyn. Roedd y mwyafrif o'r ymgeiswyr wedi llwyddo i nodi bod Erikson wedi cynnig wyth cam datblygu ac y byddai Louie yn wynebu argyfwng, ac y byddai methu â datrys yr argyfwng hwn yn ei atal rhag symud ymlaen yn llwyddiannus i'r cam nesaf. Ychydig iawn o'r ymgeiswyr oedd wedi llwyddo i enwi'r rhinwedd sy'n gysylltiedig â datrys yr argyfwng hwn yn llwyddiannus, megis *cymhwysedd*, neu esbonio y byddai cyflawni'r rhinwedd hwn yn arwain at fwy o hyder yn ei alluoedd yn y dyfodol.

**(c)** Roedd y mwyafrif o'r ymgeiswyr wedi llwyddo i nodi beirniadaeth ddilys o Ddamcaniaeth Seicogymdeithasol Erikson; fodd bynnag, nid oedd llawer wedi llwyddo i ddisgrifio neu esbonio'r feirniadaeth hon. Er enghraifft, nododd nifer mawr o'r ymgeiswyr fod damcaniaeth Erikson yn *anwybyddu ffactorau biolegol.* Cafodd y datganiad hwn ei hun ei dderbyn fel beirniadaeth gywir a rhoddwyd un marc amdano.

Fodd bynnag, er mwyn ennill y marc ychwanegol, roedd angen i ymgeiswyr ddisgrifio **pam** mae hyn yn feirniadaeth. Roedd yr ymgeiswyr cryfach wedi ymestyn eu hateb drwy esbonio bod damcaniaeth Erikson yn rhoi mwy o bwyslais ar ddylanwadau amgylcheddol a chymdeithasol ac, felly, yn anwybyddu rôl ffactorau biolegol a geneteg wrth lywio ymddygiad a datblygiad.

Yr ymgeiswyr a oedd wedi nodi'r feirniadaeth yn glir ac wedi rhoi disgrifiad byr yn dangos dealltwriaeth oedd y rhai mwyaf llwyddiannus yn y cwestiwn.

**(ch)** Ar y cyfan, roedd yr ymgeiswyr wedi llwyddo i nodi dau anabledd corfforol a all effeithio ar dwf a datblygiad plant. Dangosodd llawer o'r ymatebion ddealltwriaeth gadarn o amodau sy'n cael effaith uniongyrchol ar weithrediad corfforol.

Fodd bynnag, nid oedd nifer o'r ymgeiswyr wedi rhoi enghreifftiau clir o anableddau corfforol, ac yn lle hynny, roeddent wedi cyfeirio ar gyflyrau iechyd meddwl, cyflyrau niwroddatblygiadol, neu ymddygiad sy'n herio. Er y gall fod rhywfaint o orgyffwrdd rhwng mathau gwahanol o anabledd, roedd angen i ymgeiswyr wahaniaethu'n glir rhwng anableddau corfforol a chategorïau eraill?
Yn unol â **diffiniad GIG Cymru**, mae anabledd corfforol yn gyflwr tymor hir sy'n cael effaith sylweddol ar weithrediad corfforol, symudedd, neu ddeheurwydd unigolyn ac sy'n gallu cyfyngu ar ei allu i wneud gweithgareddau pob dydd yn effeithiol.

© WJEC CBAC Ltd.2026

Gan ddefnyddio'r diffiniad hwn, cafodd amrywiaeth o ymatebion eu derbyn, gan gynnwys parlys yr ymennydd, dystroffi cyhyrol, spina bifida, ffibrosis cystig, arthritis ieuenctid, a cholli braich a/neu goes neu wahaniaeth o ran beichiau a/neu goesau.

Ni chafodd cyflyrau fel **syndrom Down, anhwylder ar y sbectrwm awtistig (ASD), syndrom Tourette, ac Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd (ADHD)** eu derbyn. Er y gall y cyflyrau hyn fod yn gysylltiedig ag anghenion corfforol neu anghenion sy'n gysylltiedig ag iechyd, ystyrir mai **cyflyrau genetig neu niwroddatbygiadol** ydynt yn bennaf ac nid ydynt, ynddynt eu hunain, yn cynnwys amhariad sylfaenol ar weithrediad corfforol, symudedd, neu ddeheurwydd o gymharu â'r ymatebion a dderbyniwyd.

**(d)** Roedd rhai ymgeiswyr wedi llwyddo i esbonio sut y gallai Susan ddefnyddio dull person-ganolog wrth gefnogi Louie; fodd bynnag, ar adegau eraill, nid oedd ymgeiswyr wedi llwyddo i esbonio eu pwyntiau'n llawn neu gynnig amrywiaeth o ffyrdd, o oedd yn angenrheidiol er mwyn ennill y marciau uwch. Ar gyfer y cwestiwn AA2 hwn, roedd angen i ymgeiswyr nodi'r dull, esbonio sut y byddai'n cael ei ddefnyddio, a chloi gyda'r manteision i ddatblygiad Louie.
Pwynt wedi'i ddatblygu defnyddiol fyddai:

- **Dod i adnabod Louie drwy sgwrs am "yr hyn sy'n bwysig"**
  **Enghraifft:** Mae Susan yn gofyn cwestiynau penagored i Louie am ei hoff bethau, ei gas bethau, a'i ddewisiadau.
  **Mantais:** Mae hyn yn cefnogi datblygiad emosiynol a chymdeithasol Louie drwy wneud iddo deimlo ei fod yn cael ei glywed a'i werthfawrogi, a all gynyddu ei hyder a'i ddiddordeb.

**(e)** Roedd amrywiaeth o ymgeiswyr wedi llwyddo i ddisgrifio manteision cyffredinol cymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol i ddatblygiad. Roedd yn dda gweld bod yr ymgeiswyr yn ymwybodol o ystyr datblygiad corfforol, deallusol, emosiynol, a chymdeithasol, er nad oedd rhai wedi cynnwys pob un o'r meysydd hyn. Fodd bynnag, oherwydd y gair gorchymyn AA3 **"trafodwch"**, roedd angen i ymgeiswyr archwilio'r mater yn fanwl a chanolbwyntio'n benodol ar y rheswm **pam mae cymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol yn fanteisiol yn ystod plentyndod.** Dyma lle y cafodd llawer o'r ymgeiswyr drafferth.

Er enghraifft, nid oedd llawer o'r ymgeiswyr wedi nodi **gweithgareddau corfforol sy'n briodol i blant** ac, felly, roeddent wedi ei chael hi'n anodd cymhwyso eu pwyntiau. Pwynt trafod wedi'i ddatblygu defnyddiol ar gyfer **datblygiad cymdeithasol** fyddai bod gemau sy'n cynnwys gwaith tîm, fel **rownderi**, yn helpu plant i ddysgu sut i gymryd tro. Mae hyn yn arbennig o bwysig yn ystod plentyndod, gan fod plant yn aml yn **egosentrig** ac yn canolbwyntio'n bennaf arnyn nhw eu hunain. Mae datblygu'r sgiliau hyn yn annog plant i ystyried teimladau eraill a dod yn chwaraewyr tîm mwy effeithiol.

Yn yr un modd, roedd rhai ymgeiswyr wedi nodi bod gweithgarwch corfforol yn cefnogi **datblygiad emosiynol** plant drwy gynyddu **lefelau endorffinau**. Fodd bynnag, mae'n sylw sylfaenol ynddo'i hun, gan ei fod yn berthnasol i bob cam bywyd. Er mwyn ennill marciau uwch, roedd angen i ymgeiswyr ddatblygu'r pwynt hwn drwy esbonio **pa weithgareddau sy'n briodol i blant** sy'n cynyddu lefelau endorffinau a **pham mae hyn yn arbennig o bwysig yn ystod plentyndod**.

© WJEC CBAC Ltd.2026

Er enghraifft, mae gweithgareddau fel **tag, dawnsio neu nofio** yn rhyddhau mwy o endorffinau, sy'n gwella hwyliau ac yn lleihau straen. Mae hyn yn arbennig o bwysig yn ystod plentyndod am fod plant yn dal i ddatblygu'r gallu i **reoli emosiynau**, a gall mwy o endorffinau eu helpu i wneud hynny, lleihau pryderon, a gwella llesiant emosiynol cyffredinol.

Roedd rhai dysgwyr wedi canolbwyntio ar fanteision bwyta'n iach; fodd bynnag, gan nad yw hyn yn gyfystyr â gweithgarwch corfforol, ni roddwyd marciau am yr ymatebion hyn.

**Cw.2** **(a)** Atebwyd y cwestiwn hwn yn dda iawn, ac roedd llawer o'r ymgeiswyr wedi nodi'n gywir fod Zinnia ar gam bywyd oedolaeth ddiweddarach. Roedd rhai ymgeiswyr wedi defnyddio termau anghywir, megis cam bywyd “oedrannus” neu “hen”; mae'n bwysig bod ymgeiswyr yn defnyddio'r derminoleg gywir ar gyfer camau bywyd.

**(b)** Atebwyd y cwestiwn hwn yn dda iawn ar y cyfan, ac roedd y mwyafrif o'r ymgeiswyr wedi llwyddo i nodi dau **ddigwyddiad bywyd anrhagweladwy** arall y gallai Zinnia fod wedi eu hwynebu. Fodd bynnag, roedd rhai ymgeiswyr wedi nodi enwau salwch difrifol neu wedi sôn am salwch difrifol, ac ni roddwyd marciau am hyn, am fod y cwestiwn yn gofyn yn glir am **ddigwyddiadau bywyd anrhagweladwy eraill**. Roedd rhai ymgeiswyr wedi ailadrodd y digwyddiadau yr oedd Zinna wedi eu hwynebu yn yr astudiaeth achos.

Roedd rhai ymgeiswyr wedi nodi “marwolaeth”; nid oedd hwn yn ateb derbyniol, am fod Zinnia yn fyw o hyd ac nid yw wedi wynebu hyn. Fodd bynnag, byddai atebion fel **marwolaeth cymar neu bartner** wedi cael eu derbyn.

Mae'n bwysig bod ymgeiswyr yn ymwybodol o amrywiaeth o ddigwyddiadau bywyd anrhagweladwy. Byddai'n ddefnyddiol i ymgeiswyr gael rhestr o'r digwyddiadau hyn, a thrafod eu heffaith ar ddatblygiad unigolion yn y dosbarth. Gallai ymgeiswyr hefyd ystyried dulliau y gellid eu defnyddio i gefnogi **gwydnwch** wrth ymateb i'r digwyddiadau bywyd anrhagweladwy hyn.

Ymhlith rhai o'r digwyddiadau bywyd anrhagweladwy y gellid eu defnyddio mae:

- Marwolaeth cymar, partner neu aelod o'r teulu
- Ysgariad neu wahanu
- Colli incwm ar ôl profedigaeth
- Colli swydd neu ymddeol yn gynnar
- Tân yn y tŷ neu lifogydd yn y tŷ
- Symud i fyw mewn cartref gofal neu dreulio cyfnod yn yr ysbyty
- Dod yn ofalwr ar gyfer aelod o'r teulu neu ffrind.

**(c)** Roedd y mwyafrif o'r ymgeiswyr wedi llwyddo i amlinellu'r term *adsefydlu*, ac roedd llawer wedi nodi'r ystyr craidd ac wedi ymestyn eu hymateb. Er enghraifft, roedd rhai ymgeiswyr wedi cyfeirio at helpu unigolion i ymadfer ar ôl digwyddiad bywyd, cefnogi'r broses adsefydlu, adfer iechyd neu gryfder, neu helpu i atal unigolion rhag ailwaelu. Fodd bynnag, roedd rhai ymgeiswyr wedi rhoi ymatebion amwys, megis “gwneud rhywbeth,” a oedd yn annigonol.

© WJEC CBAC Ltd.2026

Llwyddodd ymgeiswyr a ymestynnodd eu hymatebion drwy amlinellu pam y gall fod angen cymorth adsefydlu ar unigolyn, nodi mathau gwahanol o adsefydlu, neu nodi ble y gall adsefydlu ddigwydd, i ennill y ddau farc llawn.

**(ch)** Roedd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr wedi llwyddo i nodi amrywiaeth o ddulliau gwahanol y gellid eu defnyddio i hybu ac amddiffyn gwydnwch Zinnia; fodd bynnag, nid oedd rhai ymgeiswyr wedi llwyddo i werthuso neu ganolbwyntio'n uniongyrchol ar sefyllfa Zinnia. Y peth allweddol ar gyfer y cwestiwn hwn oedd gwerthuso **pam y byddai'r dulliau'n helpu Zinnia i adfer ar ôl ei strôc.** Roedd rhai ymgeiswyr wedi disgrifio pwysigrwydd gwydnwch cadarnhaol heb werthuso cryfderau neu wendidau dulliau penodol y gellid eu defnyddio i hybu ac amddiffyn gwydnwch Zinnia.

Ar adegau, roedd rhai ymgeiswyr wedi gwerthuso Zinnia yn uniongyrchol, er enghraifft drwy nodi y gallai gweithgareddau hamdden megis celf neu arddio fod yn ddefnyddiol am fod modd eu haddasu a gallent roi hyder iddi a'i helpu i adfer cryfder corfforol y gallai fod wedi ei golli o ganlyniad i'w strôc. Fodd bynnag, efallai na fyddai'r gweithgareddau hyn yn ddefnyddiol pe bai Zinnia mewn poen neu'n wynebu sgil effeithiau meddyginiaeth, a allai wneud ei sefyllfa'n waeth.

Fel arfer, nid oedd yr ymgeiswyr wedi rhoi digon o sylw i Zinnia, ac o ganlyniad, nid oedd eu gwerthusiad yn canolbwyntio'n llawn arni. Dim ond nodi cryfderau dulliau a wnaeth rhai ymgeiswyr. Mae'n bwysig bod ymgeiswyr yn cael amrywiaeth o ddigwyddiadau bywyd anrhagweladwy ac, wrth astudio dulliau o hybu ac amddiffyn gwydnwch, eu bod yn gallu **cymhwyso'r dulliau hyn at sefyllfaoedd penodol** ac ystyried y cryfderau a'r gwendidau.

**Cw.3** **(a)** Roedd rhai ymgeiswyr wedi nodi achosion mynych o gymryd rhan mewn troseddau fel dewis ffordd o fyw negyddol y gall pobl ifanc ei wneud; fodd bynnag, gan fod y cwestiwn yn nodi *heblaw am droseddu*, ni roddwyd marc i'r ymatebion hyn. Roedd y mwyafrif o'r ymgeiswyr wedi llwyddo i nodi dau ddewis ffordd o fyw priodol y mae pobl ifanc yn eu gwneud yn glir.
Roedd ymatebion cryf iawn yn cynnwys enghreifftiau megis y defnydd negyddol o dechnoleg, smygu, lefelau maeth neu hydradu gwael, gyrru'n ddiofal, cymryd rhan mewn ymddygiad rhywiol mentrus, a thriwantiaeth.
Mae'n bwysig bod ymgeiswyr yn nodi dewisiadau ffordd o fyw negyddol penodol. Er enghraifft, dim ond “cyffuriau” a nododd rhai ymgeiswyr. er bod marc wedi'i rhoi am hyn yn y gyfres hon, mewn cyfresi yn y dyfodol, dylai ymgeiswyr nodi'r dewis ffordd o fyw negyddol cysylltiedig, megis defnydd amhriodol o gyffuriau neu gamddefnyddio sylweddau.

Roedd rhai ymgeiswyr wedi nodi beichiogrwydd yn yr arddegau; ni roddwyd marc am hyn am ei fod yn ganlyniad yn hytrach na dewis ffordd o fyw. Byddai nodi'r ymddygiad a arweiniodd ar y canlyniad hwn, megis cael rhyw heb ddiogelwch neu gymryd rhan mewn ymddygiad rhywiol mentrus.

**(b)** Roedd rhai ymgeiswyr wedi ei chael hi'n anodd ystyried effeithiau tymor hir dewisiadau ffordd o fyw negyddol ar ddatblygiad deallusol pobl ifanc. Roedd yr ymgeiswyr a enillodd farciau uwch wedi llwyddo i ddisgrifio effeithiau negyddol tymor hir dewisiadau o'r fath yn glir. Roedd yr ymgeiswyr hyn wedi nodi dewisiadau ffordd o fyw negyddol penodol, wedi esbonio effaith tymor hir y dewisiadau hyn, ac wedi cloi drwy gysylltu'r effaith hon â datblygiad deallusol.

© WJEC CBAC Ltd.2026

**(c)** Roedd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr wedi llwyddo i ddangos rhywfaint o wybodaeth am Ddamcaniaeth Dysgu Cymdeithasol Bandura; fodd bynnag, roedd rhai wedi ei chael hi'n anodd cymhwyso'r ddamcaniaeth hon i esbonio pam mae rhai pobl ifanc yn cymryd rhan mewn troseddau. Roedd yn dda gweld bod rhai ymgeiswyr wedi dangos eu pwyntiau drwy gyfeirio at gyfarpar dol Bobo. Ychydig iawn o'r ymgeiswyr a roddodd farnau gwerthusol yn eu hatebion, megis ystyried pam nad yw damcaniaeth Banduro ddefnyddiol o bosibl yn wrth esbonio pam mae pobl ifanc yn cymryd rhan mewn troseddau. Roedd yr ymgeiswyr a gyrhaeddodd y bandiau uwch wedi llwyddo i ddefnyddio amrywiaeth eang o gysyniadau o Ddamcaniaeth Dysgu Cymdeithasol, gan gynnwys arbrawf y ddol Bobo, dangos esiampl, ac atgyfnerthiad dirprwyol.

**Cw.4 (a)** Roedd y mwyafrif o'r ymgeiswyr wedi llwyddo i ddiffinio'r term *camddefnyddio sylweddau* yn gywir, gan nodi'n gywir ei fod yn cynnwys defnyddio sylweddau mewn ffordd niweidiol, megis gorddefnyddio cyffuriau. Fodd bynnag, nid oedd rhai ymgeiswyr wedi cynnwys pwynt ymestyn, megis rhoi enghraifft neu nodi arwydd y gall rhywun fod yn camddefnyddio sylweddau. Dim ond nodi bod camddefnyddio sylweddau yn cynnwys defnyddio sylweddau mewn ffordd niweidiol yr oedd yr ymgeiswyr hyn wedi gwneud, heb ymhelaethu ymhellach.

Roedd rhai ymgeiswyr wedi nodi'n anghywir mai defnyddio sylweddau'n rheolaidd oedd ystyr camddefnyddio sylweddau. Roedd y diffiniad hwn yn anghywir, oherwydd gallai defnydd rheolaidd gyfeirio at unigolion yn cymryd meddyginiaeth ar bresgripsiwn gan feddyg teulu neu weithiwr iechyd proffesiynol eraill, na fyddai'n cael ei ystyried yn achos o gamddefnyddio sylweddau. Er mwyn ennill marciau, roedd angen i ymgeiswyr ddangos bod camddefnyddio sylweddau yn cynnwys defnyddio sylweddau mewn ffordd niweidiol neu negyddol.

Er mwyn ennill marciau llawn, roedd angen i ymgeiswyr ddiffinio camddefnyddio sylweddau a rhoi enghraifft neu ddangosydd, gan ddangos dealltwriaeth ddyfnach o'r cysyniad.

**(b)** Atebwyd y cwestiwn hwn yn dda iawn, ac roedd y mwyafrif o'r ymgeiswyr wedi ennill marciau drwy nodi dau fath o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod y gallai Kimble fod wedi eu hwynebu. Fodd bynnag, roedd rhai ymgeiswyr wedi nodi **effeithiau profiadau niweidiol yn ystod plentyndod**, megis salwch meddwl, yn hytrach nag enwi'r profiad niweidiol yn ystod plentyndod ei hun. Er mwyn ennill marciau, roedd angen i ymgeiswyr nodi **profiadau niweidiol yn ystod plentyndod penodol** yn glir, megis:

- Salwch meddwl rhiant
- Cam-drin (corfforol, emosiynol neu rywiol)
- Esgeulustod
- Aelod o'r cartref yn cael ei anfon i'r carchar
- Cael ei roi mewn gofal maeth
- Digwyddiad difrifol yn y cartref, megis tân yn y tŷ.

Roedd rhai ymgeiswyr wedi camddarllen y cwestiwn ac wedi cynnwys **camddefnyddio sylweddau yn y cartref**. Ni roddwyd marciau am hyn am fod y cwestiwn yn gofyn am ddau brofiad niweidiol **arall** yn ystod plentyndod y gallai Kimble fod wedi eu hwynebu.

© WJEC CBAC Ltd.2026

Hefyd, ni roddwyd marciau am ymatebion amwys megis “gweiddi,” “ffraeo,” neu “straen yn y cartref”, am nad yw'r rhain yn cael eu hystyried yn brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod yn ffurfiol.
Enillodd yr ymgeiswyr a nododd brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod cydnabyddedig yn glir farciau llawn.

**(c)** Roedd yn dda gweld bod ymgeiswyr yn ymwybodol o rai clefydau neu gyflyrau iechyd sy'n gysylltiedig â Phrofiad Niweidiol yn ystod Plentyndod, yn unol â manyleb 2.1. Ymhlith y cyflyrau cyffredin a nodwyd roedd gorbryder, iselder, clefyd cardiofasgwlar, a diabetes. Roedd rhai ymgeiswyr hefyd wedi cyfeirio at anhwylder straen ôl-drawmatig; fodd bynnag, mae'n bwysig enwi'r cyflwr yn llawn ac osgoi defnyddio talfyriadau, er enghraifft roedd rhai ymgeiswyr wedi nodi PTSD ond roedd angen iddynt ei enwi'r cyflwr hwnnw yn llawn.

Er mwyn ennill marciau llawn, roedd angen i ymgeiswyr:
1. Nodi clefyd neu gyflwr iechyd priodol.
2. Disgrifio'r clefyd neu gyflwr yn glir.
3. Esbonio **pam y gall profiad niweidiol yn ystod plentyndod fod wedi cyfrannu** at Kimble yn datblygu'r cyflwr hwn.
4. Cynnwys sylw am y **ffordd y gall y cyflwr hwn effeithio ar Kimble yn y tymor hir.**

Roedd yr ymatebion a oedd yn cynnwys y pedair elfen yn dangos dealltwriaeth glir o'r cysylltiad rhwng profiadau niweidiol yn ystod plentyndod a chanlyniadau iechyd dilynol, yn ogystal â'r effaith tymor hir bosibl ar lesiant corfforol neu feddyliol Kimble.

**(ch)** Roedd y mwyafrif o'r ymgeiswyr wedi llwyddo i nodi ffyrdd y gellid cefnogi Kimble i fynd i'r afael ag effaith tymor hir profiadau niweidiol yn ystod plentyndod. Fodd bynnag, roedd rhai ymgeiswyr wedi ei chael hi'n anodd cymhwyso'r **gair gorchymyn AA2 "esboniwch"**, sy'n golygu bod angen rhoi manylion a rhesymau clir, yn hytrach na dim ond enwi ymyriadau, yn llawn.

Roedd yn bwysig bod ymgeiswyr **nid yn unig yn nodi dulliau cymorth** ond hefyd yn **esbonio beth y byddai Kimble yn ei wynebu a sut y byddai hyn yn <u>lleihau effaith tymor hir</u> profiadau niweidiol yn ystod plentyndod.**

Un adnodd defnyddiol i ganolfannau ei ddefnyddio wrth ddysgu am brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod yw https://acehubwales.com/

**Cw.5 (a)** Roedd y mwyafrif o'r ymgeiswyr wedi llwyddo i nodi'n gywir y math o deulu y mae Melanie yn rhan ohono, ac roedd y rhan fwyaf wedi nodi ei bod yn rhan o deulu un rhiant neu deulu cyd-rianta. Roedd rhai ymgeiswyr wedi awgrymu ei bod yn rhan o deulu wedi'i gyfuno neu deulu adluniedig; fodd bynnag, roedd hyn yn anghywir, gan nad oedd yr astudiaeth achos yn nodi bod Melanie wedi ailbriodi nac wedi ffurfio perthynas newydd.

**(b)** Roedd llawer o'r ymgeiswyr wedi nodi'n gywir y math o deulu y mae Melanie a'i phlant nawr yn rhan ohono, er enghraifft drwy gydnabod nad ydynt yn rhan o deulu un rhiant. Fodd bynnag, roedd rhai ymgeiswyr wedi nodi'n anghywir eu bod yn rhan o deulu niwclear neu deulu wedi'i gyfuno.
Roedd rhai ymgeiswyr wedi rhoi ymatebion amwys, megis drwy gyfeirio at “deulu wedi chwalu”, heb ddigon o eglurder a thrachywiredd.

© WJEC CBAC Ltd.2026

Roedd ymgeiswyr eraill wedi canolbwyntio ar nodi'r mathau o deuluoedd *nad* oedd Melanie a'i phlant yn rhan ohonynt, yn hytrach na nodi'n glir y math o deulu penodol y maent nawr yn rhan ohono. O ganlyniad, nid oedd yr ymatebion hyn yn ateb y cwestiwn yn llawn.

**(c)** Ar y cyfan, roedd yr ymgeiswyr wedi llwyddo i nodi ffyrdd penodol y gallai Melanie hybu safbwynt optimistaidd. Mae safbwynt optimistaidd yn cyfeirio at gynnal agwedd gadarnhaol a gobeithiol at ganlyniadau yn y dyfodol. Fodd bynnag, nid oedd rhai ymgeiswyr wedi llwyddo i esbonio sut y byddai'r dulliau hyn yn cefnogi gwydnwch Melanie yn ei sefyllfa yn benodol, er enghraifft mewn perthynas â'i hysgariad, newidiadau i'r strwythur teuluol, neu'r broses o sefydlu arferion newydd. Ni wnaeth yr ymgeiswyr nad oeddent wedi cysylltu'r safbwynt optimistaidd â manteision penodol i amgylchiadau Melanie lwyddo i gyrraedd y bandiau marciau uwch.

**(ch)** Ni roddwyd sylw llawn i'r gair gorchymyn AA3 *"gwerthuswch"* yn y cwestiwn hwn. Mae *gwerthuswch* yn gofyn i ymgeiswyr bwyso a mesur tystiolaeth drwy ystyried yr effeithiau cadarnhaol a negyddol. Ar gyfer y cwestiwn hwn, roedd angen i ymgeiswyr werthuso effaith gadarnhaol a negyddol bosibl y newid i'r strwythur teuluol ar ddatblygiad corfforol a deallusol plant Melanie.

Roedd y mwyafrif o'r ymgeiswyr wedi canolbwyntio ar yr effaith negyddol ar ddatblygiad corfforol a deallusol heb archwilio'r effeithiau cadarnhaol posibl. Roedd rhai ymgeiswyr wedi canolbwyntio ar un maes yn unig, ac roedd eraill wedi cyflwyno agweddau ychwanegol ar ddatblygiad, na roddwyd marciau iddynt. Ychydig iawn o'r ymgeiswyr oedd wedi ystyried yr effaith ar Melanie ei hun.
Roedd yn dda gweld bod rhai ymgeiswyr wedi rhoi sylw llawn i'r gair gorchymyn ac wedi cymhwyso eu hymatebion at effaith y newid i'r strwythur teuluol. Er enghraifft, roedd rhai ymgeiswyr wedi nodi y gallai gwell arferion cwsg fod yn effaith gorfforol gadarnhaol, oherwydd gallai llai o ffraeo yn y cartref arwain at gysgu'n well, gan roi mwy o egni i'r plant yn ystod y dydd. I'r gwrthwyneb, roedd rhai wedi nodi effaith gorfforol negyddol bosibl, gan awgrymu y gallai fod tarfu ar gwsg y plant ac y gallent wynebu blinder eithafol am eu bod yn teimlo allan o le mewn cartref newydd neu'n poeni am yr ysgariad. Roedd hyn yn dangos ymateb cytbwys, a oedd yn canolbwyntio ar yr effeithiau corfforol cadarnhaol a negyddol.

Roedd rhai ymgeiswyr wedi gwneud pwyntiau dilys, gan awgrymu y gallai'r ffaith bod ganddynt ddau gartref wella datblygiad deallusol y plant drwy brofiadau megis mynd ar ddau wyliau a meithrin gwybodaeth ehangach am y byd. Roedd eraill wedi archwilio sut y gallai'r plant ddatblygu sgiliau annibyniaeth, megis drwy helpu gyda thasgau arferol o gwmpas y tŷ i gefnogi rhiant sydd nawr yn byw ar ei ben ei hun.

© WJEC CBAC Ltd.2026

**Cw.6 (a)** Roedd nifer mawr o'r ymgeiswyr wedi ennill marciau uchel ar gyfer y cwestiwn hwn, drwy nodi dau weithgaredd addas yn llwyddiannus, ar wahân i grwpiau rhieni a phlant bach, y gallai Avra a'i mam ymuno â nhw yn ymarferol yn y gymuned leol. Roedd llawer o'r ymatebion yn dangos dealltwriaeth glir o weithgareddau cymunedol hygyrch a phriodol.
Roedd atebion cywir cyffredin yn cynnwys **sesiynau nofio rhieni/babanod, gweithgareddau celf a chrefft, a grwpiau yn y llyfrgell.** Rhoddwyd marciau i'r ymatebion hyn am eu bod yn nodi gweithgareddau **penodol** y gallai Avra a'i mam gymryd rhan ynddynt gyda'i gilydd.

Fodd bynnag, roedd rhai ymgeiswyr wedi enwi **gwasanaethau neu leoedd** yn hytrach na gweithgareddau, er enghraifft *canolfannau hamdden* neu *barciau*. Ni roddwyd marciau i'r ymatebion hyn, am fod y cwestiwn yn gofyn am weithgaredd clir yn hytrach na lleoliad cyffredinol. Roedd nifer bach o ymgeiswyr wedi ailadrodd *grwpiau rhieni a phlant bach*, felly ni roddwyd marciau am hyn am fod y cwestiwn yn gofyn yn benodol am ddau weithgaredd **heblaw** grwpiau rhieni a phlant bach. Yn yr un modd, ni chafodd ymatebion fel *meithrinfa* eu derbyn, am fod hyn yn cynrychioli gwasanaeth gofal plant nodweddiadol yn hytrach na gweithgaredd cymunedol.

Ar y cyfan, yr ymgeiswyr a oedd wedi darllen y cwestiwn yn ofalus ac wedi nodi **gweithgareddau ymarferol penodol** oedd y rhai mwyaf llwyddiannus.

**(b)** Roedd rhai ymgeiswyr wedi llwyddo i esbonio pam mae ymlyniad yn bwysig; fodd bynnag, nid oedd eraill wedi ystyried damcaniaeth Bowlby nac wedi cynnwys cysyniadau allweddol megis y cyfnod critigol, monotropi, amddifadedd mamol, model gweithio mewnol, neu seicopathi dideimlad. Er mwyn ennill y marciau uwch, roedd angen i ymgeiswyr nodi cysylltiad clir rhwng cysyniadau Bowlby a'r rheswm pam mae'r ymlyniad rhwng Janice ac Avra yn bwysig ar gyfer datblygiad tymor hwy Avra. Mewn nifer o ymatebion, nid oedd datblygiad tymor hir wedi'i ystyried yn llawn.

**(c)** Ni chafodd y cwestiwn hwn ei ateb yn effeithiol gan lawer o ymgeiswyr, ac nid oedd nifer mawr wedi llwyddo i gyferbynnu'r gwahaniaethau rhwng damcaniaethau Piaget a Gesell wrth gyfeirio at ddatblygiad Avra yn ystod babandod a phlentyndod. Nid oedd rhai ymgeiswyr yn hyderus wrth ddisgrifio un ddamcaniaeth neu'r ddwy yn gywir, ac roedd hyn wedi cyfyngu ar eu gallu i wneud cymariaethau ystyrlon.

Hefyd, roedd nifer o'r ymgeiswyr wedi canolbwyntio ar nodweddion tebyg y damcaniaethau yn hytrach na'u cyferbynnu, ac nid oedd hyn yn bodloni gofynion y cwestiwn. Roedd y geiriau gorchymyn AA3*"nodwch a rhowch sylwadau"* yn golygu bod angen i ymgeiswyr nodi'r gwahaniaethau rhwng y damcaniaethau ac yna esbonio neu roi sylwadau am berthnasedd y gwahaniaethau hyn i ddatblygiad Avra.

Byddai ymatebion cryfach wedi cyferbynnu safbwynt Piaget bod datblygiad gwybyddol yn digwydd drwy gamau sy'n cael eu llywio gan ddysgu gweithredol a rhyngweithio â'r amgylchedd, â damcaniaeth Gesell, sy'n pwysleisio aeddfediad biolegol a rôl geneteg mewn datblygiad.

Er mwyn gwella perfformiad, dylai ymgeiswyr ymarfer ymateb i eiriau gorchymyn AA3 fel *cyferbynnwch*, gan sicrhau eu bod yn defnyddio brawddegau cysylltiedig, clir (er enghraifft "Yn wahanol i Piaget, roedd Gesell yn credu bod…") i ddangos cymhariaeth glir.

© WJEC CBAC Ltd.2026

**Cw.7** **(a)** Roedd llawer o'r ymgeiswyr wedi nodi arwyddion clir y gall oedolyn fod ar y sbectrwm awtistig. Fodd bynnag, roedd rhai ymgeiswyr wedi rhoi sylwadau amwys megis *anhawster cyfathrebu*, heb ddigon o fanylder, neu wedi cyfeirio at *ymddygiad rhyfedd*, ac ni roddwyd marciau am hyn. Roedd rhai dysgwyr wedi canolbwyntio ar *wingiadau* gyda *stimio*; er bod *stimio* wedi'i dderbyn fel arwydd clir o awtistiaeth, nid oes cysylltiad clir nac uniongyrchol rhwng *gwingiadau* ag anhwylder ar y sbectrwm awtistig. Roedd rhai ymgeiswyr wedi nodi *cyswllt llygad*, ond roedd angen iddynt fod yn fwy penodol, er enghraifft *diffyg cyswllt llygad.*

**(b)** Roedd y mwyafrif o'r ymgeiswyr wedi llwyddo i ddisgrifio effaith awtistiaeth; fodd bynnag, nid oedd rhai wedi rhoi sylw llawn i'r cwestiwn, gan ganolbwyntio mwy ar effeithiau emosiynol yn hytrach na rhai cymdeithasol neu ddeallusol. Roedd yr ymgeiswyr a enillodd farciau uwch wedi llwyddo i nodi'r effeithiau deallusol a chymdeithasol yn glir ac wedi esbonio sut roedd y rhain yn effeithio'n uniongyrchol ar unigolion yn ystod oedolaeth.

© WJEC CBAC Ltd.2026

**IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL: EGWYDDORION A CHYD-DESTUNAU**

**Lefel 3**

**Haf 2025**

**UNED 7 ANATOMEG A FFISIOLEG**

## Trosolwg o'r Uned

Dangosodd y gyfres hon ddealltwriaeth well o nifer o feysydd o'r fanyleb; roedd yr ymgeiswyr wedi llwyddo i ateb y rhan fwyaf o'r cwestiynau ac roedd yr ymatebion yn fwy datblygedig. Roedd llai o dystiolaeth o gwestiynau'n cael eu gadael yn wag.

Dyma bedwaredd gyfres y Gaeaf ar gyfer uned Anatomeg a Ffisioleg Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Egwyddorion a Chyd-destunau). Roedd yn braf gweld lefel y manylder a roddwyd gan rai ymgeiswyr yn eu hymatebion. Roedd rhai ymgeiswyr wedi dewis ateb ar y porth electronig ac roedd llawer o rai eraill wedi dewis y fersiwn bapur. Yn y gyfres hon, roedd yn amlwg bod pob cwestiwn yn y papur yn hygyrch i'r ymgeiswyr a gadawyd llai o gwestiynau'n wag. Roedd yn dda nodi bod bron pob ymgeisydd wedi rhoi cynnig ar y cwestiynau ac wedi llwyddo i roi atebion estynedig yn y mwyafrif o achosion. Yn yr un modd â'r gyfres flaenorol, mae'n bwysig bod ymgeiswyr yn gwbl ymwybodol o'r geiriau gorchymyn allweddol y gallent gael eu hasesu arnynt, er enghraifft, yng nghwestiynau AA2 a oedd yn defnyddio'r gair gorchymyn ‘esboniwch’, nid oedd rhai ymgeiswyr wedi rhoi rhesymau nac wedi ystyried eu hateb yn fanwl. Byddai'n ddefnyddiol rhoi copi o eiriau gorchymyn yr asesiad i ymgeiswyr sy'n sefyll arholiadau allanol er mwyn iddynt allu paratoi'n llawn.

Roedd llawer o'r ymgeiswyr yn gryno yn y cwestiynau a oedd yn gofyn am atebion mwy llawn fel ‘esboniwch’ a ‘disgrifiwch. Dylid annog ymgeiswyr i ysgrifennu atebion llawn lle bo'r ferf orchmynnol yn gofyn am hynny. Lle roedd ymgeiswyr yn y bandiau marciau isaf, yn gyffredinol roedd hyn o ganlyniad i wybodaeth am y system nerfol a'r system resbiradol. Roedd rhai ymgeiswyr hefyd yn ansicr o rôl y system gardiofasgwlar.

Mae'n bwysig bod canolfannau yn ystyried a yw llawysgrifen ymgeiswyr yn ddarllenadwy; os nad yw llawysgrifen ymgeiswyr yn ddarllenadwy, dylid annog yr ymgeiswyr hyn i sefyll y fersiwn ar-sgrin o'r papur hwn.

## Sylwadau ar gwestiynau/adrannau unigol

Profwyd yr ymgeiswyr yn yr arholiad hwn ar draws y tri amcan asesu, ac mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar y meysydd cynnwys o'r fanyleb.

### 7.1 Adeiledd a swyddogaeth celloedd

Y cwestiynau a oedd yn ymwneud â'r maes cynnwys hwn oedd: 2 a 7

Roedd llawer o'r ymgeiswyr wedi nodi amddiffyn ac amsugno wrth gyfeirio at swyddogaeth celloedd epithelaidd. Fodd bynnag, dim ond amlinelliad sylfaenol o swyddogaeth y celloedd hyn a roddodd yr ymgeiswyr gallu is, gan gyfeirio at eu priodweddau o safbwynt rhwystro. Roedd yr ymgeiswyr gallu uwch wedi rhoi amlinelliad rhagorol hyderus o amrywiaeth eang o swyddogaethau ac wedi cyfeirio at eu harbenigedd yn dibynnu ar eu lleoliad, gan ddangos ymwybyddiaeth o wahanol fathau o gelloedd epithelaidd.

© WJEC CBAC Ltd.2026

Roedd cwestiwn 7 yn gofyn i ymgeiswyr ddisgrifio effeithiau camddefnyddio sylweddau ar y corff mewn modd cyfannol, a rhoddwyd marciau i rai ymgeiswyr am drafod yr effaith y bydd hyn yn ei chael ar y celloedd mewn perthynas â'r system imiwnedd. Roedd yr ymgeiswyr gallu uwch wedi cyfeirio at y pathogenau a rôl celloedd wrth ymladd y pathogenau hyn.

**7.2 Adeiledd a swyddogaeth systemau ffisiolegol dynol**

Y cwestiynau a oedd yn ymwneud â'r maes cynnwys hwn oedd: 1,3, 4, 5, 7

Mae llawer o atebion yr ymgeiswyr mewn perthynas â systemau ffisiolegol yn gwella. Mae'n dda nodi bod y canolfannau'n dod yn fwy medrus wrth addysgu'r fanyleb o ran adeiledd a swyddogaeth y system ffisiolegol.

Dangosodd llawer o'r ymgeiswyr wybodaeth hyderus am y sgerbwd echelinol ac atodol gan nodi amrywiaeth o esgyrn yn gywir rhoddwyd marciau am enw a lleoliad cymalau penodol, e.e. y pen-glin, ond dylai canolfannau annog ymgeiswyr i ddysgu'r enwau anatomegol cywir. Roedd yr ymgeiswyr wedi llwyddo i esbonio mewn rhywfaint o fanylder rôl y sgerbwd echelinol ac atodol. Dangosodd y mwyafrif o'r ymgeiswyr wybodaeth hyderus am amrywiaeth o organau yn y system resbiradol. Cafodd y mwyafrif o'r ymgeiswyr farciau llawn am y cwestiwn hwn; lle na chafodd yr ymgeiswyr farciau llawn, roeddent wedi rhestru'r organau anghywir e.e. arennau. Roedd yr holl ymgeiswyr wedi rhoi cynnig ar 3b ac wedi llwyddo i nodi rhai effeithiau smygu; roedd bron pob ymgeisydd wedi cyfeirio at yr effeithiau tymor byr ac roedd rhai wedi cyfeirio at yr effeithiau tymor hir. Fodd bynnag, nid oedd llawer o'r ymgeiswyr wedi esbonio'r effeithiau ar yr alfeoli a llai o effeithlonrwydd o safbwynt cyfnewid nwyol.

Roedd cwestiwn 4 yn gofyn i ymgeiswyr nodi'n gywir fod y galon, y gwaed a'r pibellau gwaed yn elfennau allweddol o'r system gardiofasgwlar. Roedd llawer o'r ymgeiswyr wedi cyfeirio at y rhydwelïau a'r gwythiennau gan ddefnyddio eu henwau anatomegol, a rhoddwyd marciau am hyn. Roedd y cwestiwn yn parhau i ofyn i ymgeiswyr esbonio prif swyddogaeth y system; roedd yn dda gweld bod bron pob ymateb yn cyfeirio at y gwaed yn pwmpio o amgylch y corff, ond roedd llawer o'r ymgeiswyr wedi mynd ymlaen i esbonio'r system dargludiad trydanol a/neu'r gylchred gardiaidd,

Ar y cyfan, cafwyd atebion da am y system nerfol a'i swyddogaeth, ac roedd y mwyafrif wedi cyfeirio at y system nerfol ganolog a'r system nerfol berifferol.

**7.3 Sut mae ffactorau a dewisiadau ffordd o fyw yn gallu effeithio ar ffisioleg dynol**

Y cwestiynau a oedd yn ymwneud â'r maes cynnwys hwn oedd: 6, 8,9,10

Roedd cwestiwn 8 yn cysylltu 7.2 a 7.3 Roedd angen i ymgeiswyr esbonio sut mae hydradu yn gallu bod o fudd i systemau ffisioleg ddynol. Yn yr un modd, roedd cwestiwn 7 yn gofyn i ymgeiswyr archwilio sut y gall gordewdra effeithio ar y system gardiofasgwlar. Mae cyd-destun yr addysgu ar gyfer 7.3 yn cysylltu ac yn pontio'r wybodaeth am y systemau ac yn eu cymhwyso at broblemau cyffredin. Mae angen i ymgeiswyr a chanolfannau ystyried sut y gall y materion cyffredin hyn effeithio ar y systemau ffisiolegol dynol.

Atebwyd cwestiwn 8 yn dda gan y mwyafrif o'r ymgeiswyr, a chafodd llawer o'r ymgeiswyr farciau uchel am eu hatebion ar gyfer cwestiwn hwn. Mae'r ymgeiswyr yn meddu ar ddealltwriaeth dda o straen, gorbryder ac iselder ac roedd eu hymatebion yn feddylgar. Yn yr un modd, roedd yr atebion i gwestiwn 9 o ran deiet cytbwys a'i fanteision i ffisioleg ddynol yn dangos dealltwriaeth dda.

© WJEC CBAC Ltd.2026

Roedd yr ymgeiswyr a enillodd farciau uwch wedi cyfeirio at amrywiaeth o systemau ac wedi llunio ymatebion dilys. Dim ond cyfeirio at fanteision o safbwynt lleihau gordewdra neu bwysau a wnaeth yr ymgeiswyr a gafodd farciau is. 'Dadansoddi' oedd y ferf allweddol ar gyfer cwestiwn 10 ac roedd llawer o'r ymgeiswyr wedi rhoi cynnig ar ddadansoddi manteision gweithgarwch corfforol wrth gynnal iechyd a llesiant heb gyfeirio at yr anfanteision, a oedd yn ofynnol er mwyn ennill marc band 4.

### 7.4 Sut mae unigolion yn gallu monitro eu hiechyd a'u llesiant eu hunain

Y cwestiynau a oedd yn ymwneud â'r maes cynnwys hwn oedd: 11 a 14

Roedd cwestiwn 11 yn gofyn i ymgeiswyr asesu pwysigrwydd technoleg ac eto, roedd yr ymgeiswyr a enillodd farciau uwch wedi cyfeirio at fanteision ac anfanteision technoleg ac wedi llwyddo i ennill marc band 4. Roedd yn dda gweld bod llawer o'r ymgeiswyr wedi cyfeirio at gydbwysedd o ffactorau negyddol a chadarnhaol; roedd rhai wedi cyfeirio at y golau glas a natur gaethiwus technoleg yn ogystal ag asesu y byddai'n helpu'r sector i fonitro ac olrhain cyflyrau iechyd penodol. Trafodwyd amrywiaeth o raglenni sgrinio yn y cwestiwn olaf a dangosodd llawer o'r ymgeiswyr wybodaeth gadarn am y profion hyn. Roedd rhai ymgeiswyr wedi cyfeirio at raglenni imiwneiddio, ac nid oedd hyn yn rhan o'r cwestiwn hwn.

© WJEC CBAC Ltd.2026

## Eich cefnogi chi

### Manylion cyswllt a dolenni defnyddiol

Mae ein tîm pwnc cyfeillgar wrth law i'ch cefnogi rhwng 8.30 a.m. a 5.00 p.m. o ddydd Llun i ddydd Gwener.
Ffôn: 029 2026 5139
E-bost: igceach@cbac.co.uk
Tudalen y cymhwyster ar y we: Cymwysterau Lefel 3 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau (Asesu am y Tro Cyntaf 2024)

Gweler manylion cyswllt defnyddiol eraill yma: Cysylltu â ni | Dysgu Iechyd a Gofal Cymru

### Hyfforddiant DPP / Dysgu Proffesiynol

Manteisiwch ar ein cyrsiau DPP/DP ar-lein rhad ac am ddim poblogaidd i gael adborth ar arholiadau ac i ofyn cwestiynau i'n tîm pwnc, a dewch i un o'n digwyddiadau wyneb yn wyneb, sy'n canolbwyntio ar wella addysgu a dysgu, darparu syniadau ar gyfer yr ystafell ddosbarth a datblygu dealltwriaeth o farcio ac asesu.

Mae manylion ynghylch ein holl gyrsiau i'w cael yma: Hyfforddiant a Digwyddiadau i Ddod | Dysgu Iechyd a Gofal Cymru https://www.cbac.co.uk/home/dysgu-proffesiynol/

### Cymwysterau CBAC

Fel corff dyfarnu mwyaf Cymru, mae CBAC yn cefnogi ei gymuned addysg drwy ddarparu cymwysterau dwyieithog ac asesiadau dibynadwy a chefnogaeth arbenigol i ysgolion a cholegau ar draws y wlad. Mae hyn yn caniatáu i'n dysgwyr gyrraedd eu potensial yn llawn.

Gyda thros 70 mlynedd o brofiad, rydym hefyd ymhlith y prif ddarparwyr yn Lloegr a Gogledd Iwerddon.

© WJEC CBAC Ltd.2026

CBAC
245 Rhodfa'r Gorllewin
Caerdydd CF5 2YX
Rhif Ffôn 029 2026 5000
Ffacs 029 2057 5994
E-bost: arholiadau@cbac.co.uk
gwefan: www.cbac.co.uk

© WJEC CBAC Ltd.2026